

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	16 Mai 2024
TEITL	Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2024/25
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 i'w mabwysiadu
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

- Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 29 Ebrill 2024 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2024/25. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

- Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Y prif flaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn, oedd:
 - Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu
 - Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus
 - = Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion
 - = Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24
 - Cyflwyno pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan
 - = Cynllunio a Chymunedau Cymraeg
- Bu aelodau yn trafod y prif flaenoriaethau yn ogystal â beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2024/25. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- ❖ *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- ❖ *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- ❖ *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- ❖ *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- ❖ *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

4. Blaenoriaethwyd eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.
5. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar bob achlysur gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer un cyfarfod. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.
6. Mae gan y Pwyllgor rôl i graffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn gyda dealltwriaeth bod gwaith y Bwrdd yn cael ei graffu dwywaith y flwyddyn.

Er mwyn galluogi craffu materion eraill yn ystod y flwyddyn, daethpwyd i'r casgliad y dylid rhannu copi o Adroddiad Blynnyddol y Bwrdd ar gyfer 2023/24 gyda'r aelodau ond ddim ei graffu yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor. Mae'r eitem 'Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' wedi ei raglennu i'w graffu yng nghyfarfod Ionawr.

7. Adnabuwyd yr eitem 'Gwasanaeth Edrychiad Stryd' fel eitem i'w raglennu yn 2025/26.
8. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.
9. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.
10. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25.**

BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2024/25

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
16/5/24	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus Clwyf Gwywiad yr Onnen 	Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd
		Mater ar y gofrestr risg
12/9/24	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan Gorchmynion Rheoli Cŵn 	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Sicrwydd o ran gweithrediad
7/11/24	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion Cynllunio a Chymunedau Cymraeg Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24 	Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Sicrwydd o ran gweithrediad
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
23/1/25	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn Toiledau Cyhoeddus 	Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn
		Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
		Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023
20/3/25	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol 	Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024

Eitem i'w raglennu yn 2025/26 - Gwasanaeth Edrychiad Stryd